Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher yr 16eg o Ragfyr 2009 am 7.30yh

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Colin Jenkins, Cyng. Roy Davies, Cyng. Hugh Towns, Cyng. Ieuan Gwyn, Cyng. Edward Thomas, Cyng. Chris Parish, Cyng. Ros Bellamy, Cyng. Fran Murphy, Cyng. Dawn Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau : Y Cyng. Richard Wallace

Cyn y cyfarfod, rhoddodd myfyrwyr 6ed dosbarth o 12EP yn Ysgol Tregib, gyflwyniad i'r Cyngor ar eu prosiect Cymunedol i'r elusen Action Aid. Derbyniodd y prosiect hwn wobr ysgol yn ystod y noson gyflwyno ym mis Medi. Diolchodd y Faeres iddynt ac roedd yn dymuno cofnodi mor braf oedd gweld pobl ifanc yn ymddiddori cymaint mewn gwaith elusennol.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Anfonodd y SCCH Roger Antony adroddiad i mewn, a oedd yn datgan bod 6 o droseddau wedi cael eu cyflawni yn ystod y mis diwethaf. Roedd y troseddau fel a ganlyn:

1. Siop ladrata o'r Co-op
2. Dwyn o siop leol
3. Dwyn cot o dŷ tafarn
4. Difrod i gar yn y prif faes parcio
5. Difrod i ddrws ar Stryd Lewis – arestiwyd y troseddwr
6. Person ym meddiant canabis o ganlyniad i weithred stopio a chwilio

Dywedodd y SCCH Anthony mai un o'r blaenoriaethau ar gyfer y mis oedd taclu parcio ar balmentydd. Byddai rhybuddion yn cael eu gosod ar gerbydau sy'n troseddu yn y lle cyntaf. Byddai unrhyw un a welir yn achosi rhwystr yn cael eu herlyn.

Cof 219 / Rhag /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones bod yr Adran Blaen Gynllunio yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ddatblygu'r Gogledd. Byddai'r Bwrdd Gweithredol yn derbyn adroddiad rhagarweiniol yn eu cyfarfod ym mis Ionawr, cyn y byddai unrhyw argymhellion yn cael eu clywed yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Chwefror. Dywedodd y CS Jones y byddai'r Ganolfan Ewropeaidd a Wendy Walters o CSG yn rhoi manylion o'r grantiau sydd ar gael i Gynghorau tref. Adroddodd bod grant o £500,000 wedi cael ei sicrhau i wella ansawdd dŵr y Tywi.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bleidlais o ddiolch i'r CS Jones am ei wasanaeth ardderchog i'r Dref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Roy Davies.

Cof 220/ Rhag/ 09 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 25ain o Dachwedd 2009, fel cofnod cywir gyda'r diwygiad canlynol:-

Yn bresennol yn y cyfarfod oedd y Cyng. Fran Murphy, Cyng. Dawn Wallace a derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyng. Julia Jones

Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 9fed o Ragfyr 2009, fel cofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 221 / Rhag / 09 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parthed. Cof 208 / Tach / 09. Mynychodd y Cyng. Edward Thomas ei gyfarfod Llywodraethwyr cyntaf yn Ysgol GG Llandeilo. Byddai'n darparu adroddiad wedi'r cyfarfod nesaf.

Cof 222 / Rhag / 09 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed mewn perthynas â defnyddio'r Siambr ar gyfer cyfarfodydd eraill. Nodwyd. Bydd y Clerc yn archebu'r ystafell ar gyfer pob achlysur.

Cof 223 / Rhag / 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

Y Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus – er gwybodaeth, byddai £4,884 yn cael ei ddebydu o gyfrif y Cyngor ar y 29ain o Ragfyr i ad-dalu'r benthyciad.

1. Adran Gynllunio CSG, yn rhoi rhybudd o rybudd gorfodi newid defnydd yn 22a Stryd Caerfyrddin.
2. Siambr Fasnach Llandeilo, cofnodion y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i'r Clerc i ateb yn diolch i'r ysgrifennydd, ond yn ei hysbysu mai'r Cynghorydd dynodedig sy'n mynychu eu cyfarfodydd yw'r Faeres.
3. Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig. Adroddiad blynyddol y Cadeirydd. Gofynnwyd i'r clerc i'w anfon i bob un o'r Cynghorwyr.

Cof 224 / Rhag /09 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

Westward (atgyweirio'r boeler yn Neuadd y Sir)	£	1,211.01
Prospect Construction (clirio'r gwter yn Neuadd y Sir)	£	57.70
Prospect Construction (atgyweirio'r ffenestr do yn Neuadd y Sir)	£	999.69
Prospect Construction (ffliw'r simnai –Neuadd y Sir)	£	94.70
Prospect Construction (atgyweirio'r to gwastad yn Neuadd y Sir)	£	840.76
Prospect Construction (atgyweirio'r gwaith plastr yn Neuadd y Sir)	£	506.00
Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig (llogi byrddau ar gyfer yr Arddangosiad Tân Gwyllt)	£	12.00
Charles B Sams (tŵr seinydd yn Neuadd y Sir)	£	63.25
W. Kingsbury (3 amserydd i'r goleuadau Nadolig)	£	10.35
Trywydd (cyfieithu)	£	484.47

Pasiwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

2. Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2010/11.
   Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn cael eu derbyn ac y dylid gosod y praesept ar gyfer y flwyddyn ar £ 49,104. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
3. Cyfrifon.
   Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn bod £10,000 yn cael ei drosglwyddo o'r cyfrif cadw i'r cyfrif cyfredol. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
4. Materion Ariannol.
   Sefydlwyd is-grŵp, yn cynnwys y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Ieuan Gwyn a'r Swyddog Cyllid, i ystyried Cyfrif Treuliau'r Maer, gyda golwg ar y Cyfarfod Cyffredinol. Buasent yn adrodd yn ôl i gyfarfod Cyllid Ionawr, ar y 13eg o Ionawr. Byddai'r mater hwn yn cael ei osod fel eitem ar yr agenda.

Cof 225/ Rhag / 09 Trawsgludiaeth a Phriffyrdd
Adroddodd y Cyng. Colin Jenkins bod goleuadau stryd newydd wedi cael eu gosod ar hyd Heol Latimer, Heol Cilgant a Heol Alan.

Cof 226 / Rhag / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Rhoddodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr o'r mis. Nid oedd nifer o'r goleuadau Nadolig ynghyn, a byddai'r trydanwr yn edrych i mewn i'r mater. Byddai'r Swyddog Technegol yn cysylltu â Chyngor yr Eglwys i drefnu i anfoneb i gael ei pharatoi ar gyfer y gwaith o atgyweirio cloc yr Eglwys.
Rhoddodd y Faeres bleidlais o ddiolch i Mr Davies am ei holl waith caled, yn enwedig yn ystod yr arddangosiad Tân Gwyllt a chynnau'r goleuadau Nadolig.

Cof 227 / Rhag / 09 Trafod Polisi Cynllunio Strategol ar gyfer cynnal a chadw Neuadd y Sir
Dywedodd y Cyng. Hugh Towns y byddai'r is-grŵp yn parhau i gynnal cyfarfodydd cyfnodol i gynorthwyo'r Swyddog Technegol.

Cof 228 /Rhag / 09 Adroddiad y Faeres.

Rhoddodd y Cyng. Charlotte Leadbeater restr o'r achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis.

Cof 229 / Rhag / 09 Adroddiadau Eraill
Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Dywedodd y Cyng. Roy Davies ei fod wedi hysbysu prosiect Tywi'r Oesoedd y byddai'r Cyngor yn parhau gyda'r prosiect heb eu cyfranogiad. Roedd y Cyng. Davies yn chwilio am gontractwr arall i roi amcan bris ar gyfer y gwaith.

Cof 230/ Rhag /09 Eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Dywedodd y Cyng. Julia Jones bod rhestriad y Cyngor yn y llyfr ffôn yn anghywir. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â BT i gywiro'r rhestriad.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35yh